

FISHER, FRANCIS GEORGE (1909 - 1970), dramodydd a chynhyrchydd drama

Enw: Francis George Fisher
Dyddiad geni: 1909
Dyddiad marw: 1970
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: dramodydd a chynhyrchydd drama
Maes gweithgaredd: Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Perfformio
Awdur: Bedwyr Lewis Jones

Ganwyd 26 Ionawr 1909 yn Bargod, Morgannwg Cafodd ei addysg yn Ysgol Lewis, Pengam, ac yng Ngholeg y Brifysgol, Caerdydd, lle graddiodd mewn mathemateg. Am gyfnod byr bu'n athro mewn coleg cenhadol yng ngorllewin Affrica; yna o 1932 yn athro mathemateg (ac yn ddiweddarach yn ddirprwy-brifathro) yn ysgol ramadeg Llangefni hyd ei farw, 30 Ionawr 1970.

Cyhoeddodd nofel, *One has been honest* (1930), a cherddi a storïau yn *The Adelphi* ac yn *The Twentieth century* yn y tridegau; yna troes at y ddrama a pherfformiwyd *The disinherited* o'i waith yn Theatr Fach Abertawe yng Ngorffennaf 1939. Ymunodd â'r llynges adeg y rhyfel a thra oedd yn Ynys yr Iâ ymroes i ddysgu Cymraeg o lyfryn Caradar. O hyn allan ar gyfansoddi dramâu yn Gymraeg yr oedd ei fryd. Ysgrifennodd nifer o ddramâu byrion: *Y Lleoedd pell* (1945), *Y Blaid-ddyn* (1945), *Awena* (1945), *Harri ddewr*, a *Morwyn y môr* (1952), a thair drama hir: *Catrin* (a enillodd iddo wobwr am ddrama hir yn Eisteddfod Genedlaethol Dolgellau 1949), *Y Ferch a'r dewin* (1958) (a oedd yn gyd-fuddugol yn Eisteddfod Genedlaethol y Rhyl 1953), a *Merch yw Medusa* (1951). Cyfieithodd hefyd ddrama Andre Obey, *Noa* (1951). Eithr pennaf gyfraniad F.G. Fisher oedd mynnu cartref sefydlog i Gymdeithas Ddrama Llangefni, a thrwy hynny greu'r Theatr Fach a agorodd ym Mhencraig, Llangefni, ym Mai 1953. Yno cafodd fod yn gyfarwyddwr theatr a gwireddu ei freuddwyd am theatr amatur yn cyflwyno dramâu yn gyson yn Gymraeg ac yn Saesneg yn ôl safonau cwbl broffesiynol.

Awdur

Bedwyr Lewis Jones, (1933 - 1992)

Ffynonellau

Taliesin, Awst 1970

Llywelyn Jones, *Francis George Fisher, bardd a dramodydd* (Ynys Môn 1893) (1983)

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [George Fisher](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q3404451](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

